**SEWR-04-01 (min)**

# PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 13 Gorffennaf 2001 |
| **Time:** | 9.30am hyd 12.30pm |
| **Venue:** | Neuadd Goffa y Barri |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Peter Black (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Lorraine Barrett | Canol Caerdydd |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Sue Essex | Gogledd Caerdydd |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| David Melding | Canol De Cymru |

| | |
|---|---|
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Gorllewin Caerdydd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Bob Macey | Is-adran Diogelu’r Amgylchedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Andy Rees | Is-adran Diogelu’r Amgylchedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Robert Little | Cyngor Bro Morgannwg |
| Julian Rosser | Cyfeillion y Ddaear, Cymru |
| Dr. Jane Gilbert | Y Gymdeithas Gompostio |
| Mal Williams | Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru |
| Marian Webber | Cadw Cymru’n Daclus |
| Alun James | Asiantaeth yr Amgylchedd - Cymru |
| Dr. Mark Temple | Awdurdod Iechyd Bro Taf |

*Ysgrifenyddiaeth:*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol gan gynnwys aelodau'r cyhoedd a'r cyflwynwyr. Thema'r cyfarfod oedd rheoli gwastraff, a dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig fod y Pwyllgorau Rhanbarth yn cyfrannu at yr ymgynghori presennol ar 'Reoli Gwastraff mewn Modd Cynaliadwy' ac y byddai hynny'n arwain at fabwysiadu strategaeth rheoli gwastraff ar gyfer Cymru.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Alun Cairns, Christine Chapman, Jane Davidson, David Davies, Geraint Davies, Ron Davies, William Graham, John Griffiths, Brian Hancock, Carwyn Jones, Huw Lewis, Dai Lloyd, Lynne Neagle a Jenny Randerson.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai: SEWR-03-01 (min)**

2. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai.

**Eitem 3: Sesiwn drafod agored**

3. Mewn ymateb i wahoddiad gan y Cadeirydd, cododd aelodau'r cyhoedd y materion canlynol:

- yr angen i awdurdodau lleol ymwneud â'u cymunedau wrth ddatblygu strategaeth gwastraff.
- gallu awdurdodau lleol i wireddu'r amcanion a chyflawni'r targedau a awgrymwyd ar gyfer rheoli gwastraff drwy leihau faint o wastraff sy'n mynd i gladdfeydd sbwriel a chynyddu ailgylchu a chompostio. Teimlid y byddai cyllid digonol yn ffactor allweddol i sicrhau llwyddiant y strategaeth arfaethedig.
- llosgi fel dull o waredu gwastraff. Teimlid mai dim ond fel dewis olaf y dylid ystyried llosgi a bod gofyn am asesiadau risg digonol i sicrhau cymunedau nad oedd unrhyw beryglon sylweddol i iechyd yn bodoli.
- casglu a chyhoeddi data ar ddeunyddiau sy'n addas i'w hailgylchu.
- y cymorth sydd ar gael i ffermwyr a'r diwydiant twristaidd i ymladd effeithiau clwy'r traed a'r genau. Nodwyd bod y grp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu i asesu effaith y clefyd ar yr economi wledig ac i roi cyngor ar fesurau i gynorthwyo adferiad. Byddai'r grp hwn yn llunio cynllun adfer drafft a fyddai'n cael ei ystyried gan y Bartneriaeth Wledig ar 24 Gorffennaf.

**Eitem 4: Strategaeth Rheoli Gwastraff: SEWR-04-01 (p.1)**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Bob Macey (Is-adran Diogelu'r Amgylchedd), Andy Rees (Is-adran Diogelu'r Amgylchedd) a Robert Little (Cyngor Bro Morgannwg) i'r cyfarfod a gwahoddodd hwy i roi eu cyflwyniadau i'r Pwyllgor.

4.2 Dywedodd Bob Macey o Is-adran Diogelu'r Amgylchedd fod y strategaeth gwastraff drafft a lansiwyd ar 4 Gorffennaf wedi ei chynhyrchu mewn ymateb i'r angen am strategaeth ar wahân ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru. Dywedodd fod y Cynulliad wedi gweithio'n glòs gydag awdurdodau lleol, busnes a diwydiant, y sector gwirfoddol a chydag arbenigwyr, cyrff proffesiynol ac academaidd drwy Fforwm Gwastraff Cymru i gynhyrchu'r ddogfen ymgynghori. Byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn trafod y strategaeth derfynol yn yr hydref cyn ei rhyddhau yn gynnar y flwyddyn nesaf.

4.3 Roedd perfformiad Cymru ar hyn o bryd yn wael o safbwynt rheoli gwastraff, ac roedd y strategaeth yn cynnig targedau a pholisïau a fyddai'n lleihau faint o wastraff a oedd yn mynd i gladdfeydd sbwriel er mwyn cynorthwyo Cymru i gwrdd â'i rhwymedigaethau o dan y Gyfarwyddeb Tirlenwi. Câi hyn ei gyflawni gan fwyaf drwy gynyddu faint o wastraff dinesig sy'n cael ei gompostio neu ei ailgylchu. Cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol gyllid ychwanegol o £3 miliwn yn 2001-02 a byddai £1.5 miliwn ohono ar gael i awdurdodau lleol. £13 miliwn a £24 miliwn yw'r ffigurau dangosol ar gyfer 2002-03 a 2003-04, gydag £11 miliwn a £22 miliwn o'r uchod, yn ôl eu trefn, wedi cael eu dyrannu i awdurdodau lleol (yn dibynnu ar benderfyniad terfynol gan y Cynulliad). Byddai hynny'n gymorth i ddatblygu gwaith newydd neu ychwanegol i gynyddu cyfraddau ailgylchu a chompostio ac i annog awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd a chyda chyrff gwirfoddol a chymunedol. Teimlwyd y byddai ailgylchu'n gost effeithiol iawn pan fyddai'r holl gostau, gan gynnwys costau amgylcheddol a chymdeithasol wedi cael eu hystyried. Er hynny, derbyniwyd nad ailgylchu fyddai'r ffordd rataf ar y cychwyn o waredu gwastraff yn nhermau arian parod.

4.4 Dywedodd Rob Little o Gyngor Bro Morgannwg mai cost yw'r ystyriaeth bennaf ym maes rheoli gwastraff yn y DU. Roedd casglu gwastraff a'i waredu mewn claddfeydd sbwriel yn rhad ac yn galluogi llywodraeth leol i ddarparu gwasanaeth effeithlon a chost effeithiol. Dywedodd mai prif nod llywodraeth leol oedd gwaredu gwastraff drwy beirianwaith cadarn ar gost y gellid ei fforddio.

4.5 Roedd y gofyniad i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Tirlenwi a datblygu strategaeth gwastraff i Gymru yn arwydd o symud oddi wrth yr agwedd gost effeithiol hon. Byddai'r targedau i leihau swmp y gwastraff sy'n cael ei gladdu ac i gynyddu faint o wastraff dinesig sy'n cael ei gompostio neu ei ailgylchu yn her i awdurdodau lleol. I gyrraedd y targedau hynny byddai'n rhaid casglu mwy o'r tu allan i gartrefi; rhoi rhagor o bwyslais ar addysg i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd ac ennill ymroddiad; cynyddu buddsoddiad mewn seilwaith rheoli gwastraff a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol, busnesau a'r sector gwirfoddol.

4.6 Pwysleisiodd Rob Little yr angen am agwedd gydlynus wrth gyflenwi strategaeth rheoli

gwastraff a oedd yn cynnwys ymgyrch genedlaethol i greu ymwybyddiaeth o wastraff. Dywedodd fod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol rheoli gwastraff fel y gallai llywodraeth leol ddatblygu'r weledigaeth honno mewn ffordd ddyfeisgar.

4.7 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Nodwyd, er y byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am lawer o'r strategaeth rheoli gwastraff, y byddent yn cael eu hannog i drafod ystod lawn o opsiynau ac atebion gyda'u cymunedau lleol. Byddai disgwyl felly i awdurdodau lleol fod â rôl ganolog mewn datblygu strategaeth gwastraff a chyflawni gwastraff cynaliadwy. Ar ben hynny, teimlid y gallai rhannu'r ymarfer gorau gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu targedau. Cytunai'r Pwyllgor fod gweithredu drwy bartneriaeth a oedd yn cynnwys llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, busnes a chymunedau yn hanfodol er mwyn cyflenwi'r strategaeth gwastraff yn llwyddiannus.
- Cytunai'r aelodau fod rheoli gwastraff yn thema trawsbynciol a oedd yn effeithio ar iechyd a materion cymdeithasol ehangach, a bod y ddogfen ymgynghori yn adlewyrchu hynny. Roedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i ddatblygu asesiadau effaith ar iechyd er mwyn dynodi peryglon posibl o weithrediadau rheoli gwastraff, yn cynnwys llosgi a chynlluniau troi gwastraff yn ynni.
- Mynegodd y Pwyllgor bryder fod y gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru yn cynyddu ar raddfa sylweddol. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynigion yn y strategaeth gwastraff i ffrwyno twf mewn gwastraff yn y dyfodol ac i roi blaenoriaeth i gynhyrchu cyn lleied â phosibl o wastraff.
- Teimlai'r Pwyllgor fod y targedau ailgylchu ar gyfer awdurdodau lleol yn her ond ei bod yn bosibl eu cyflawni. Mynegwyd pryder nad oedd digon o alw ar hyn o bryd am nwyddau wedi eu hailgylchu ac y byddai angen cryfhau'r farchnad i gynorthwyo ailgylchu ac ennill manteision economaidd o'r broses ailgylchu. Nodwyd bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cyd-gyllido Rhaglen Weithredu'r DU ar Wastraff ac Adnoddau i gynorthwyo i gael gwared â rhwystrau rhag ailgylchu a chreu marchnadoedd sefydlog ac effeithiol ar gyfer deunyddiau a chynhyrchion wedi eu hailgylchu.
- Teimlai'r Pwyllgor y byddai angen newid mewn diwylliant er mwyn gallu rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy. Cytunwyd bod rhaglen addysg effeithiol yn hanfodol er mwyn hwyluso newidiadau mewn agwedd ac ymddygiad tuag at wastraff. Teimlai'r aelodau fod pobl ifanc yn fwy ymwybodol o faterion yn ymwneud â gwaredu gwastraff a bod ganddynt well dealltwriaeth ohonynt. Dylai unrhyw ymgyrchoedd addysg hefyd gynnwys preswylwyr tai, pobl sy'n taflu sbwriel a'r rhai sy'n gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon, ynghyd â busnes a diwydiant.

- Cafwyd peth trafodaeth ar safle tirlenwi Nantygwyddon. Nododd y Pwyllgor y pryderon a godwyd yn ymwneud â chamgymeriadau gwyddonol, diffyg arolygiadau ar hap a'r

wybodaeth a oedd ar gael i'r trigolion. Byddai'r adroddiad terfynol i Ymchwiliad Tirlenwi Nantygwyddon ar gael ym mis Hydref. Nodwyd bod David Purchon, yr ymchwilydd a oedd yn ymwneud â'r ymchwiliad, yn aelod o Fforwm Gwastraff Cymru a oedd yn gyfrifol am y strategaeth gwastraff.

4.8 Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am roi eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau gan yr Aelodau.

**Eitem 5: Strategaeth Rheoli Gwastraff**

5.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Julian Rosser (Cyfeillion y Ddaear, Cymru), Dr. Jane Gilbert (Y Gymdeithas Gompostio), Mal Williams (Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru), Marian Webber (Cadw Cymru'n Daclus), Alun James (Asiantaeth yr Amgylchedd - Cymru) a Dr. Mark Temple (Awdurdod Iechyd Bro Taf) i roi eu cyflwyniadau.

5.2 Croesawai Julian Rosser o Gyfeillion y Ddaear, Cymru y ddogfen ymgynghori a dywedodd ei bod yn gam sylweddol tuag at gynyddu lefel ailgylchu yng Nghymru. Dywedodd y dylai'r strategaeth gynnwys uchelgais i gynhyrchu 'dim gwastraff' yn y tymor hir a thargedau o 50 y cant erbyn 2010 a 60 y cant erbyn 2015 ar gyfer ailgylchu a chompostio. Roedd cyfradd ailgylchu o dros 50 y cant wedi ei chyflawni yn y Swistir a'r Almaen.

5.3 Dywedodd y byddai ailgylchu yn dod â manteision economaidd a chymdeithasol, yn ogystal â manteision amgylcheddol. Roedd yn hanfodol fod y strategaeth gwastraff yn cael ei chymryd o ddifrif gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel leol a bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cyflwyno targedau statudol cyn gynted ag sy'n ymarferol.

5.4 Croesawai Dr. Jane Gilbert o'r Gymdeithas Gompostio y ffaith fod compostio'n cael ei hyrwyddo o fewn y strategaeth gwastraff. Dywedodd y byddai compostio gwastraff yn cynorthwyo Cymru i gwrdd â'i rhwymedigaethau o dan y Gyfarwyddeb Tirlenwi ac yn help i gyflawni'r targedau a amlinellwyd yn y strategaeth gwastraff. Roedd angen cynyddol am gompostio er mwyn gwella arferion amaethyddol presennol a lleihau'r defnydd o fawn, a oedd yn gallu cael effaith niweidiol ar fio-amrywiaeth.

5.5 Dywedodd Dr. Gilbert fod pa mor hawdd y caiff gwastraff ei gompostio yn amrywio'n fawr. Dywedodd y gellid compostio drwy ddefnyddio systemau cymhleth yn ogystal â rhai syml a'i bod yn ffordd hyblyg o drin gwastraff. Pwysleisiodd yr angen am reoleiddio digonol i sicrhau bod y deunyddiau a gynhyrchir o safon benodol ac o ansawdd dda.

5.6 Pwysleisiodd Mal Williams rôl y gymuned yn y strategaeth gwastraff. Roedd pobl leol yn dangos parodrwydd i fynd i'r afael â lleihau gwastraff ac roeddent yn ymroddedig i ailgylchu, ond roedd gofyn am adnoddau a chyfleusterau digonol.

5.7 Croesawai'r ymrwymiad a wnaethpwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i reoli gwastraff ac ailfynegodd yr angen i'r Cynulliad egluro ei weledigaeth ymhellach drwy gyflwyno targed 'dim gwastraff'. Roedd yn bwysig cymryd cyfrifoldeb am gynhyrchu deunyddiau ac, os oedd angen, rhoi'r gorau i gynhyrchu'r rheiny na ellid eu hailgylchu.

5.8 Dywedodd Marian Webber fod Cadw Cymru'n Daclus yn bendant yn cefnogi datblygu strategaeth gwastraff i Gymru, gan gynnwys sbwriel a chynlluniau sbwriel yn benodol. Amlinellodd bwysigrwydd mynd i'r afael â phroblem sbwriel er mwyn cadw ymddangosiad esthetig yr amgylchedd ac ansawdd bywyd lleol, i ddenu buddsoddiad o'r tu allan a thwristiaeth.

5.9 Roedd Cadw Cymru'n Daclus yn croesawu pwyslais y strategaeth gwastraff ar fynd i'r afael â gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon yn cynnwys arllwys sbwriel a dympio cerbydau nad ydynt yn cael eu defnyddio. Gallai awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r materion hyn drwy gyfuniad o gyflenwi gwasanaeth o ansawdd uchel, codi ymwybyddiaeth drwy'r cwricwlwm ysgol a gorfodaeth, a byddai hynny'n gofyn am gyllid digonol.

5.10 Roedd yn bwysig rhannu ymarfer da a datblygu peirianweithiau i ganiatáu cyfnewid gwybodaeth drwy'r DU i gyd. Yn ychwanegol at hynny, roedd angen datblygu meincnodau a monitro perfformiad Cymru yn erbyn gwledydd eraill.

5.11 Dywedodd Alun James fod Cymru ar hyn o bryd yn cynhyrchu 7.5 miliwn o dunelli o wastraff domestig, masnachol a diwydiannol bob blwyddyn a bod 4 miliwn o dunelli ohono'n cael eu cynhyrchu yn Ne Ddwyrain Cymru. Dywedodd fod Asiantaeth yr Amgylchedd - Cymru yn gryf o blaid creu Grwpiau Strategaeth Gwastraff Rhanbarthol ymysg yr Awdurdodau Lleol i fwrw ymlaen i roi'r strategaeth gwastraff ar waith yn eu rhanbarthau.

5.12 Amlinellodd yr angen i ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yn fwy dwys a gwneud defnydd mwy effeithiol o ddeunyddiau crai ac ynni. Teimlai Asiantaeth yr Amgylchedd - Cymru y dylai penderfyniadau yngln â rheoli gwastraff yn gynaliadwy fod yn seiliedig ar y dewis amgylcheddol ymarferol gorau gan ddefnyddio'r hierarchiaeth gwastraff a amlinellwyd yn y strategaeth gwastraff. Rhoddai gefnogaeth gref i leihau gwastraff fel blaenoriaeth ac awgrymai y dylid defnyddio cymhellion ariannol i annog ymgyrchoedd lleihau gwastraff.

5.13 Pwysleisiodd Alun James yr angen i ddynodi peryglon iechyd wrth waredu gwastraff. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd - Cymru yn gweithio gyda sefydliadau eraill ar asesu effeithiau cyfleusterau tirlenwi, compostio a llosgi ar iechyd. Ailfynegodd yr angen i ymgynghori â chymunedau a darparu gwybodaeth diduedd yn ymwneud â'r peryglon sy'n gysylltiedig â gweithgaredd rheoli gwastraff.

5.14 Teimlai Asiantaeth yr Amgylchedd - Cymru fod angen datblygu cyfleusterau trin gwastraff newydd ynghyd â system gynllunio gadarn er mwyn cyflawni'r targedau a amlinellwyd yn y

strategaeth.

5.15 Dywedodd Alun James fod Asiantaeth yr Amgylchedd - Cymru yn gweithredu proses dryloyw o asesu a rheoleiddio, a oedd yn ystyried pryderon y cyhoedd. Câi penderfyniadau eu seilio ar wyddoniaeth gadarn ac roedd amddiffyn pobl leol a'r amgylchedd o'r pwys mwyaf.

5.16 Croesawai Dr Mark Temple y ffaith fod iechyd y cyhoedd wedi ei gynnwys fel mater strategol allweddol o fewn y ddogfen ymgynghori. Pwysleisiodd yr angen i sicrhau natur ddibynadwy a rhagfynegol Asesiadau Effaith ar Iechyd (AEI) a phwysleisiodd yr angen i neilltuo adnoddau ar gyfer gwerthuso cywirdeb rhagfynegol AEI.

5.17 Dywedodd fod gofyn i awdurdodau lleol ymgynghori â'r Awdurdod Iechyd cyn rhoi caniatâd i ddatblygiad newydd a allai achosi llygredd er mwyn sicrhau na cheid unrhyw niwed i'r boblogaeth leol. Mynegodd bryder na chytunwyd ar unrhyw drefn yn lle'r un bresennol o ystyried fod yr Awdurdodau Iechyd yn cael eu diddymu yn 2003.

5.18 Pwysleisiwyd pwysigrwydd data da, cywir ac amserol i oleuo cyngor ar iechyd. Roedd yn hanfodol fod casglu data yn genedlaethol yn cael ei ariannu'n ddigonol er mwyn caniatáu i effaith y strategaeth gwastraff ar iechyd gael ei gwerthuso'n iawn.

5.19 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cafwyd peth trafodaeth ar ddichonoldeb targed o 'ddim gwastraff' a'r gallu i ailgylchu pob cynnyrch a deunydd. Cytunai'r aelodau yn gyffredinol y byddai ailgylchu absoliwt yn anymarferol ac yn gostus. Teimlid bod y targedau a amlinellwyd yn y strategaeth gwastraff yn gam cyntaf hanfodol yn yr hyn a fyddai o angenrheidrwydd yn strategaeth tymor hir. Nodwyd mai uchelgais ar gyfer y tymor hir fyddai'r targed 'dim gwastraff' ac y gellid ennill manteision ychwanegol drwy rannu ymarferion gorau â gwledydd a oedd wedi cyflawni lefelau uchel o ailgylchu.
- Mynegodd yr aelodau bryder am y gormodedd o ddeunydd pacio sydd am gynhyrchion a'r effaith a gâi hynny ar gynhyrchu gwastraff. Cytunai'r Pwyllgor mai ffordd effeithiol o fynd i'r afael â hynny fyddai codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion gwastraff ymhlith gwneuthurwyr a defnyddwyr fel ei gilydd. Yn ychwanegol at hynny, teimlid y gellid defnyddio dull dyfeisgar yn ymwneud â chynnyrch lleol i fynd i'r afael yn rhannol â gor-becynnu ac y dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno deddfwriaeth ar gynwysyddion. Cytunai'r aelodau na ddylai unrhyw fesurau a gyflwynir i leihau pecynnu beryglu iechyd y cyhoedd.
- Cytunai'r Pwyllgor ei bod yn hollbwysig tynnu unigolion i mewn i ymgyrchoedd sydd wedi eu lleoli yn y gymuned er mwyn cynorthwyo i reoli gwastraff yn effeithiol. Dylai'r ymgyrchoedd hyn gynnwys elfen o hwyl a bod yn bleserus i'r rhai sy'n cymryd rhan. Teimlai'r aelodau y byddai'r sector ailgylchu cymunedol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at gyflawni'r targedau a amlinellwyd yn y strategaeth gwastraff. Rhoddwyd croeso i

gyfraniad ymgyrchoedd lleol gan gynnwys ailgylchu cewynnau papur.

- Cafwyd peth trafodaeth ar faint o wastraff domestig sy’n addas i’w gompostio a’r farchnad ar gyfer compost. Nododd y Pwyllgor fod diffyg gwybodaeth gryno ar gael ar hyn o bryd ar gyfansoddiad gwastraff. Roedd pa mor addas yw gwastraff ar gyfer ei gompostio yn dibynnu i raddau helaeth ar ffactorau economaidd-gymdeithasol, er hynny gallai gwahanu gwastraff yn orfodol yn y man lle caiff ei greu, fel sy’n digwydd yn yr Iseldiroedd, hwyluso’r broses gompostio. Nodwyd bod galw cynyddol am gompost a bod y Gymdeithas Gompostio yn bwriadu datblygu strategaeth farchnata o fewn y flwyddyn nesaf.
- Cytunai’r aelodau fod rheoleiddio a gorfodaeth effeithiol yn rhan sylfaenol o reoli gwastraff. Awgrymwyd y gallai mabwysiadu’r strategaeth gwastraff o bosibl arwain at fwy o ddympio anghyfreithlon gan gynnwys gollwng ac arllwys sbwriel. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd - Cymru wedi cael cyllid ychwanegol yn benodol ar gyfer gwaith gorfodaeth mewn ardaloedd a oedd yn dioddef yn ddrwg o arllwys sbwriel. Teimlai’r Pwyllgor y dylai gweithgaredd dympio anghyfreithlon ddwyn cosb addas ac y gallai erlyn troseddwyr weithredu fel rhybudd i beidio â gwneud hynny.

5.20 Diolchodd y Cadeirydd i’r siaradwyr am roi eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau’r Aelodau.

**Eitem 6: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i’r Cyfarfod Llawn: SEWR-04-01 (p.2)**

6. Cytunwyd ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i’r Cyfarfod Llawn. Byddai’r adroddiad yn cael ei gyflwyno a’i drafod mewn Cyfarfod Llawn ym mis Hydref.

**Eitem 7: Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2001-02**

7.1 Gwahoddodd Peter Black enwebiadau. Jonathan Morgan oedd yr unig enwebiad, ac fel y cyfryw cafodd ei ethol yn briodol.

7.2 Diolchodd Jonathan Morgan i’r Pwyllgor am ei ethol ac, ar ran y Pwyllgor, diolchodd i Peter Black am ei waith caled a’i ymroddiad fel Cadeirydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Eitem 8: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

8. Dywedodd Peter Black y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 2 Tachwedd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Gorffennaf 2001**